

## **POLISI DERBYN PRIFYSGOL ABERTAWE**

### **A Rhagarweiniad**

### **B Strwythurau a Phrosesau**

- B1. Polisi Derbyn
- B2. Egwyddorion Derbyn Cyffredinol
- B3. Y Pwyllgor Recriwtio a Derbyn
- B4. Ehangu Mynediad a defnyddio gwybodaeth gyd-destunol mewn derbyniadau

### **C Meini Prawf Derbyn**

- C1. Gofynion mynediad i Israddedigion Amser Llawn
- C2. Gofynion mynediad ôl-raddedig
- C3. Rhaglenni rhan-amser a galwedigaethol
- C4. Gofynion Iaith Saesneg
- C5. Amodau derbyn eraill

### **D Y Broses Ymgeisio**

- D1. Ceisiadau
- D2. Dethol
- D3. Y broses gwneud cynnig D4. Derbyn ein cynnig
- D5. Polisi canslo
- D6. Cadarnhau'r canlyniadau
- D7. Matriciwleiddio Ôl-raddedig

### **E Gwybodaeth i ymgeiswyr mewn amgylchiadau penodol**

- E1 Derbyn myfyrwyr dan oed
- E2 Ymgeiswyr ag anableddau
- E3 Ymgeiswyr ag euogfarnau troseddol
- E4 Ymgeiswyr sy'n dymuno gohirio mynediad Cydnabyddiaeth am
- E5 Ddysgu Blaenorol (RPL)
- E6 Ymgeiswyr sy'n dymuno ailymgeisio
- E7 Ymgeiswyr y mae angen fisa arnynt i astudio yn y DU

### **F. Adborth, cwynion ac apeliadau**

### **G. Gwybodaeth ffug neu gamarweiniol i gefnogi cais**

### **H. Defnyddio data ymgeiswyr**

### **I. Cyfrifoldeb ymgeiswyr yn y broses dderbyn**

### **J. Ymwadiad, tynnu'n ôl a diwygiadau i raglenni**

## A. RHAGARWEINIAD

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu côd ymarfer y Brifysgol (gan gynnwys polisiau, gweithdrefnau a gwybodaeth gysylltiedig) ar gyfer derbyn myfyrwyr i raglenni israddedig ac ôl-raddedig (wedi'u haddysgu ac ymchwil). Mae'n darparu gwybodaeth am awdurdod a chyfrifoldebau'r sawl sy'n rhan o'r broses ac yn amlinellu sut bydd unrhyw anghydfod yn cael ei ddatrys.

Penderfyniad y Brifysgol yn unig yw derbyn myfyrwyr i'r Brifysgol.

Ein polisi pennaf ar dderbyn yw cefnogi Cenhadaeth ac Amcanion Strategol y Brifysgol (y mae copi ohoni yn <https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/strategol/gweledigaeth/>).

Bydd y Brifysgol bob amser yn ceisio gweithredu gweithdrefnau sy'n deg ac yn unol â chyfraith y Deyrnas Unedig, Siarter, Statudau, Ordinadau a Rheoliadau'r Brifysgol, a rheolau cyfiawnder naturiol. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfiaeth benodol â deddfwriaeth sy'n ymwneud â gwahaniaethu (e.e. Deddf Cydraddoldeb 2010, Y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio), Y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw, y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail, Anabledd, etc.)

Mae gweithdrefnau derbyn y Brifysgol yn rhoi sylw dyledus hefyd i'r arweiniad mewn perthynas ag arfer da a gyhoeddir gan gyrff eraill, gan gynnwys Côd Ymarfer yr Asiantaeth Sicrhau Ansawddac Adnoddau Arfer Da UCAS, a dogfennau a chyfarwyddbau a allai gael eu cyhoeddi gan y Llywodraeth, Cyngor Cyllido Addysg Uwch (Cymru) a'r Cynghorau Ymchwil.

## B. Strwythurau a Phrosesau

### B1. Polisi Derbyn

Adolygir Polisi Derbyn y Brifysgol bob blwyddyn gan y Pwyllgor Recriwtio a Derbyn. Mae'r Polisi, fel y'i cymeradwywyd gan y Senedd, fel a ganlyn:

*“Ein Polisi Derbyn yw annog cofrestriadau gan fyfyrwyr sydd â'r potensial i ennill ystod eang o sgiliau newydd a chymhleth; meistrolï corff helaeth o wybodaeth uwch ac, yn anad dim, mynd drwy gyfnod o ddatblygiad deallusol, trwyadl, sy'n arwain at ddyfarnu cymhwyster Prifysgol.*

*“Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau ac ymholiadau gan bobl waeth beth yw eu hoedran, eu tarddiad ethnig neu genedlaethol, eu hil, eu crefydd, eu rhyw, eu tueddfryd rhywiol, eu statws priodasol, eu cyfrifoldebau teuluol, eu hanabledd corfforol neu synhwyrdd, a'u credoau a'u gweithgareddau gwleidyddol neu grefyddol, oni bai bod y gweithgareddau hynny'n anghyfreithlon neu'n groes i bolisiau'r Brifysgol.*

*“Wrth ystyried addasrwydd ymgeisydd ar gyfer mynediad, bydd y bobl y dirprwywyd iddynt y dasg o argymhell myfyrwyr i'w derbyn yn rhoi ystyriaeth ddyledus, fel y bo'n briodol, i berfformiad academaidd blaenorol; dysgu drwy brofiad blaenorol; argaeledd (neu ddiffyg argaeledd) adnoddau a chyfleoedd dysgu addas; rhaglenni astudio presennol; asesiadau gan ganolwyr, seicolegwyr addysg neu ymarferwyr meddygol; cofnodion o gyflawniadau; tystiolaeth o ymrwymiad a chymhelliand; ansawdd gwaith ysgrifenedig; perfformiad mewn cyfweiliad neu dan amodau arholiad. Bydd y detholwyr hefyd yn ystyried gallu'r ymgeisydd i gyfrannu at fywyd diwylliannol, chwaraeon neu gymdeithasol y Brifysgol a'r gymuned.*

*“Rydym yn cydnabod, er ei bod yn bosib iawn y byddant yn bodloni rhai o’r meini prawf dethol neu bob un ohonynt, efallai y bydd rhaid gwrthod mynediad i rai ymgeiswyr oherwydd dwyster y gystadleuaeth am nifer gyfyngedig o leoedd.”*

## **B2. Egwyddorion Derbyn Cyffredinol**

- Glynir wrth Bolisi Derbyn y Brifysgol;
- Caiff proses adolygu a gweithredu'r polisi hwn ei goruchwyllo gan y Pwyllgor Recriwtio a Derbyn, wedi'i gadeirio gan y Deon Derbyn Myfyrwyr;
- Mae'r Cofrestrydd yn gyfreithiol gyfrifol am dderbyn myfyrwyr;
- Bydd yr Is-ganghellor yn dirprwyo awdurdod cyffredinol am faterion sy'n ymwneud â derbyn i Ddirprwy Is-ganghellor neu aelod arall o'r staff uwch a fydd yn gyfrifol am sicrhau uniondeb y broses dderbyn a bod y Brifysgol yn cyflawni ei thargedau derbyn;
- Caiff targedau derbyn Colegau/Ysgolion eu cytuno gan Benaethiaid Coleg/Ysgol mewn cydweithrediad â'r Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol ym mis Ionawr bob blwyddyn;
- Dylai Pennaeth y Coleg/Ysgol benodi Tiwtoriaid Derbyn, sicrhau eu bod nhw'n deall ac yn cefnogi Polisi Derbyn y Brifysgol a'r sgiliau a'r rhinweddau sy'n addas ar gyfer rhaglenni perthnasol, ac y rhoddir amser, hyfforddiant ac adnoddau digonol iddynt i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol;
- Dylai'r Pennaeth Derbyn benodi tîm derbyn proffesiynol a fydd yn gyfrifol am roi'r broses ddethol ar waith ar gyfer rhaglenni unigol ar ran Colegau/Ysgolion;
- Cyfrifoldeb tiwtoriaid Derbyn a staff Marchnata, Recriwtio a Rhyngwladoli'r Coleg fydd gweithio gyda'r tîm derbyn i gytuno ar feini prawf dethol, rhoi cyngor ar benderfyniadau dethol priodol ac argymhell newidiadau i'r polisi a'r weithdrefn ddethol yn sgil profiad;
- Ni chaniateir gwneud cynigion derbyn ffurfiol a datganiadau sy'n cadarnhau bod myfyriwr wedi'i dderbyn ond gan neu drwy'r Swyddog Derbyn perthnasol (fel y'i dirprwywyd gan y Cofrestrydd) neu gan aelodau staff priodol mewn digwyddiadau recriwtio tramor ar ôl ymgynghori â'r Swyddfa Dderbyn;
- Mae'r Pennaeth Derbyn, neu ei gynrychiolydd, yn gyfrifol yn weinyddol am bob agwedd ar dderbyn ymgeiswyr yn ffurfiol, gan gynnwys pob cysylltiad â chyrrff ac asiantaethau allanol sy'n ymwneud â derbyn myfyrwyr.

## **B3. Y Pwyllgor Recriwtio a Derbyn**

Prif ddiben y Pwyllgor Recriwtio a Derbyn yw goruchwyllo'r broses derbyn i'r Brifysgol a datblygu polisiâu ar gyfer y Brifysgol o ran recriwtio a derbyn myfyrwyr newydd. Mae'r Pwyllgor Recriwtio a Derbyn yn adrodd i'r Senedd:

Mae prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys:

- Datblygu strategaethau i recriwtio myfyrwyr;
- Goruchwyllo derbyniadau i'r Brifysgol;
- Adolygu'r polisi derbyn a'r egwyddorion derbyn bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn galluogi'r Brifysgol i gyflawni ei nodau;
- Monitro derbyn myfyrwyr i sicrhau bod y polisi a'r egwyddorion derbyn yn cael eu gweithredu'n gywir;
- Sicrhau bod y Tiwtoriaid Derbyn yn cael eu hyfforddi;
- Annog cysondeb wrth wneud penderfyniadau ar dderbyn a sicrhau bod hyn yn ystyried polisiâu perthnasol ar gyfle cyfartal sy'n gysylltiedig â myfyrwyr, e.e. anabled, cydraddoldeb hiliol;

- Adolygu a datblygu polisiâu a gweithdrefnau derbyn sy'n ymwneud ag ehangu cyfranogiad mewn cydweithrediad â SAILS;
- Rhoi cyngor i'r Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol ar osod targedau'r Brifysgol mewn perthynas â derbyn myfyrwyr newydd a thargedau penodol ar gyfer pob Ysgol/Coleg yn y Brifysgol.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o bob Ysgol/Coleg, o Wasanaethau Proffesiynol perthnasol ac o'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd, y Bwrdd Rheoliadau ac Achosion Academiaidd a'r Bwrdd Rheoli Rhaglenni; ynghyd â chynrychiolwyr myfyrwyr.

#### **B4. Ehangu Mynediad**

Fel sawl sefydliad arall, rydym yn gweithio i gynyddu cyfranogiad ac ehangu mynediad at addysg uwch gan fyfyrwyr heb brofiad teuluol blaenorol o addysg brifysgol a chan grwpiau dan anfantais. Mae pob cais yn parhau i gael ei ystyried yn ôl ei haeddiant i sicrhau tegwch a chysondeb.

**a.** Rydym yn gwarantu y rhoddir cynnig amodol i'r holl ymgeiswyr israddedig cartref (DU) astudio cwrs ym Mhrifysgol Abertawe\* lle byddwn yn ystyried gwybodaeth yn y cais megis cyflawniadau blaenorol, datganiad personol, graddau a ragwelir, geirdaon a chymysgedd o bynciau i osod telerau pob cynnig. \*nid yw hyn yn berthnasol i gyrsiau proffesiynol. Ceir rhagor o fanylion ar-lein: [Cynigion Israddedig wedi'u Gwarantu – Prifysgol Abertawe](#)

#### **b. Camu i Fyny i Brifysgol Abertawe**

Gall cwblhau'r rhaglen Camu i Fyny yn llwyddiannus arwain at gynnig is i ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni Israddedig penodol.

DS Dylai ymgeiswyr sydd wedi cwblhau ysgol haf neu gwrs cryno tebyg gyda phrifysgol arall anfon y manylion llawn i'r Swyddfa Dderbyn i asesu a fyddent yn gymwys am yr un gostyngiad mewn pwyntiau.

#### **c. Ymadawyr Gofal**

Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i ddarparu cymorth ar gyfer plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal sydd am fynd ymlaen i addysg uwch. Mae'r pecyn cymorth i fyfyrwyr sydd wedi bod mewn gofal am fwy na 3 mis ac sydd â "Chynllun Llwybr" Ymadawyr Gofal yn cynnwys cymorth ariannol i fynychu diwrnodau agored neu gyfweiliadau; rhoddir blaenoriaeth mynediad iddynt at y Gronfa Ariannol Wrth Gefn, sy'n darparu grant gwerth hyd at £1,000 y flwyddyn a allai arwain at gynnig is. Ceir rhagor o fanylion ar-lein:

[Cefnogaeth i bobl sy'n gadael gofal - Prifysgol Abertawe \(swansea.ac.uk\)](#)

### **C. Meini Prawf Derbyn**

#### **C1. Gofynion Mynediad i Israddedigion**

Er mwyn dechrau ar gynllun astudio amser llawn i israddedigion, rhaid i ddarpar fyfyrwyr fodloni gofynion rhaglen (a bennir gan yr adran sy'n derbyn ac sy'n ymddangos yn y manylion am y pwnc unigol yn y Prosbectws i Israddedigion ac ar-lein) a rhaid iddynt feddu ar TGAU Saesneg neu Gymraeg gradd C neu uwch (neu gymhwyster cyfwerth).

Fel rheol, mynegir gofynion penodol ar gyfer rhaglenni israddedig ar ffurf tair Safon Uwch TAG (y gallai rhai ohonynt fod yn benodol) ar raddau penodol. Fodd bynnag, bydd y Brifysgol yn ystyried ystod eang o gymwysterau eraill, gan gynnwys Bagloriaethau Ewropeaidd, Rhyngwladol a Chymreig, Uwch Ddiploma, Irish Leaving Certificate, SQA Advanced Highers, BTEC, Diploma Mynediad at Addysg Uwch ac ystod o gymwysterau rhyngwladol.

Ceir tabl sy'n dangos pa gymwysterau sy'n cael eu derbyn yn y Prosbectws Israddedig ac ar-lein yn <https://www.swansea.ac.uk/cy/israddedig/cyrsiau/gofynion-mynediad/>

Yn ogystal â'r uchod, gall Colegau a rhaglenni unigol yn y Brifysgol bennu isafswm gofynion mynediad ar gyfer lefelau cyrhaeddiad mewn arholiadau TGAU neu gymhwyster cyfwerth, yn enwedig mewn Mathemateg. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei nodi'n glir mewn gofynion mynediad ar gyfer rhaglenni penodol ar-lein ac yn y prosbectws.

Mewn achosion arbennig, gellir eithrio ymgeiswyr o ofynion y rhaglen os argymhellir hynny gan adran am eu bod wedi cyrraedd y safon mynediad angenrheidiol i'w galluogi i ddechrau ar y rhaglen gradd y gwnaethant gais amdani. Fel rheol, byddai hyn yn cael ei asesu trwy gyfweiliad neu asesiad o ddarn o waith ysgrifenedig.

## **C2. Gofynion mynediad ôl-raddedig**

Nodir gofynion mynediad ar gyfer rhaglenni ôl-raddedig ar dudalennau gwe'r cyrsiau, ond fel arfer yr isafswm gofynion yw cymhwyster gradd Baglor (cyfwerth ag o leiaf radd Diploma Addysg Uwch y DU) o sefydliad cymeradwy\*, gan gynnwys:

- Gradd ail ddsbarth is (2.2) neu gyfwerth ar gyfer mynediad i radd Meistr a Addysgir neu radd Meistr drwy Ymchwil (gan gynnwys MRes)
- Gradd ail ddsbarth uwch (2.1) neu gyfwerth ar gyfer mynediad i raglen ymchwil sy'n arwain at radd MPhil/MD/PhD/EngD

Yn ogystal:

- Mae rhai colegau'n gofyn bod ymgeiswyr am gyrsiau MPhil/MD/PhD/EngD wedi cwblhau gradd Meistr yn llwyddiannus cyn dechrau eu rhaglen ymchwil
- Yn achos rhai rhaglenni, bydd angen bodloni gofynion corff proffesiynol neu statudol yn ogystal â gofynion safonol y Brifysgol.

\*Caiff prifysgolion eu gwirio drwy ECCTIS y DU neu gymeradwyaeth flaenorol gan Banel Matriciwleiddio'r Brifysgol. Bydd gwledydd sy'n darparu rhaglenni gradd drwy golegau cysylltiol neu annibynnol yn cael eu croesgyfeirio drwy wefan a gydnabyddir gan y Llywodraeth i sicrhau y caiff graddau eu dyfarnu gan brifysgol a gymeradwyir gan ECCTIS.

Fel arall, gall ymgeiswyr ôl-raddedig nad ydynt yn meddu ar y cymwysterau uchod fodloni gofynion mynediad a matriciwleiddio drwy un o'r canlynol:

- (i) Gradd cyn gradd Meistr o sefydliad cymeradwy i gael eu derbyn i raglen astudio a addysgir y cytunir arni; Neu
- (ii) Fynediad heb radd (yn briodol i astudio am radd Meistr a addysgir, gradd Meistr drwy Ymchwil ac MRes yn unig): rhaid i ymgeiswyr nad oes ganddynt radd israddedig feddu ar waith ôl-gymhwyso

sylweddol a pherthnasol neu brofiad arall a aseswyd gan y Detholwyr Derbyn fel y bo'n briodol ar gyfer derbyn myfyrwyr i'r rhaglen berthnasol. Fel canllaw, gallai hyn fod o leiaf dair blynedd o brofiad amser llawn os mai Safon Uwch yn yr ysgol yw'r cymwysterau uchaf, neu bum mlynedd os mai TGAU yw'r cymwysterau uchaf. Ystyrir perthnasedd y profiad i'r rhaglen dan sylw hefyd.

Mae'r Panel Matriciweiddio (sef y Grŵp Matriciweiddio ac Achosion Arbennig ynghynt) yn gyfrifol am bennu gofynion matriciweiddio ôl-raddedig Prifysgol Abertawe. Mae'r Panel yn atebol i'r Pwyllgor Recriwtio a Derbyn Myfyrwyr, ac mae'n darparu data ynghylch ymgeiswyr sy'n cael eu derbyn â'r cymwysterau 'ansafonol' a restrir a'r rhai hynny sy'n cael eu derbyn yn unol â'r polisi cynnig hyblyg, a'u dilyniant.

### **C3. Gofynion Mynediad ar gyfer rhaglenni rhan-amser BA yn y Dyniaethau**

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y Rhaglen BA Ran-amser yn y Dyniaethau a gynigir ym Mhrifysgol Abertawe. Fodd bynnag, gellir gofyn i fyfyrwyr ddod i gyfweliad a chyflwyno datganiad personol ysgrifenedig i gefnogi eu cais.

### **C4. Gofynion mynediad iaith Saesneg**

Mae'n rhaid i'r holl fyfyrwyr ddangos eu bod wedi cyrraedd safon Saesneg ysgrifenedig a llafar ofynnol cyn dechrau eu rhaglenni. Gall myfyrwyr nad Saesneg yw eu hiaith frodorol ddangos eu bod wedi bodloni'r gofyniad iaith Saesneg mewn dwy ffordd:

- Drwy brawf iaith Saesneg cymeradwy neu gymhwyster arall a restrir yn <https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/gofynion-iaith-saesneg/>
- Cwblhau Rhaglen Iaith Saesneg Gyn-sesiynol yn llwyddiannus yng Ngwasanaethau Hyfforddiant Iaith Saesneg Abertawe (ELTS) ar y lefel ofynnol cyn dechrau'r rhaglen academiaidd. Mae rhagor o fanylion ar gael yn: [www.swansea.ac.uk/elts](http://www.swansea.ac.uk/elts)

Er y byddai'r profion a'r cymwysterau uchod yn caniatáu i fyfyrwyr gael eu derbyn i'r Brifysgol, dylai ymgeiswyr rhyngwladol ddisgwyl sefyll prawf byr o'u hyfedredd Saesneg adeg cofrestru, er mwyn asesu a fyddai cymorth ychwanegol am ddim yn yr iaith Saesneg o fudd iddynt, ac i helpu i lywio'r polisi iaith Saesneg ar dderbynioldeb profion iaith Saesneg amgen.

Am fanylion llawn, darllenwch y polisi llawn ynghylch Gofynion Mynediad iaith Saesneg yn: <https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/>

### **C5. Amodau derbyn eraill**

Ar gyfer rhaglenni sy'n cynnwys rhyngweithio â phlant a/neu oedolion sy'n agored i niwed, mae'r Brifysgol yn mynnu bod ymgeiswyr yn derbyn gwiriad datgeliad manwl boddhaol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Yn ogystal, gofynnwn i ymgeiswyr ar gyfer rhai rhaglenni galwedigaethol neu broffesiynol (megis Nyrso, Bydwreigiaeth a Meddygaeth) ddangos "ffitirwydd i ymarfer" meddygol cyn iddynt gael eu derbyn.

Mae'r gofynion mynediad manwl ar gyfer pob rhaglen (yn y prospectws perthnasol neu dudalennau gwe'r rhaglen) yn nodi a oes unrhyw un o'r amodau hyn yn berthnasol. Bydd yr ymgeiswyr hefyd yn

cael eu cynghori ar yr amodau ychwanegol hyn mewn cynnig am le.

## D. Y Broses Ymgeisio

Mae Prifysgol Abertawe wedi ymrwymo i drin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal ac i sicrhau y caiff y cyhoedd ddewis cyfathrebu â'r Brifysgol yn Gymraeg neu yn Saesneg a dewis ym mha iaith yr hoffent dderbyn gwasanaeth. Felly, mae croeso i ddarpar fyfyrwyr gyflwyno cais am le naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Yn ogystal, gofynnir i'r holl ddarpar fyfyrwyr nodi a hoffent dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg, ac anfonir gohebiaeth atynt yn yr iaith honno wedi hynny. Wrth gofrestru, gofynnir i fyfyrwyr gadarnhau eu dewis iaith at ddiben cyfathrebu yn y dyfodol.

### D1. Ceisiadau

Mae tri phrif lwybr gwneud cais ar gyfer y rhan fwyaf o raglenni'r Brifysgol:

1. UCAS (Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau) i fyfyrwyr o'r DU ac o'r UE sy'n gwneud cais am raglenni gradd israddedig amser llawn : [www.ucas.com](http://www.ucas.com)
2. Hyfforddiant Athrawon UCAS i'r rhai hynny sy'n dymuno gwneud cais am gyrsiau hyfforddiant athrawon ôl-raddedig: <https://www.ucas.com/postgraduate/teacher-training/how-apply>
3. Yn uniongyrchol i'r Brifysgol: <https://apply.swan.ac.uk/#/home> ar gyfer yr holl ymgeiswyr i raglenni ôl-raddedig a cheisiadau rhyngwladol i raglenni israddedig

Ac eithrio:

- Cwrs Ymarfer y Gyfraith (LPC) neu'r Diploma yn y Gyfraith i Raddedigion (GDL): dylid gwneud ceisiadau drwy Fwrdd Ceisiadau Canolog y Gyfraith (LawCAB): [www.lawcabs.ac.uk/](http://www.lawcabs.ac.uk/)
- MSc mewn Gwaith Cymdeithasol ac MSc mewn Astudiaethau Cydymaith Meddygol: dylid cyflwyno ceisiadau drwy UCAS yn [www.ucas.com](http://www.ucas.com)
- Rhaglenni gradd ar y cyd pan gaiff blwyddyn gyntaf y rhaglen ei haddysgu mewn sefydliad partner: dylai ceisiadau gael eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r sefydliad perthnasol

Bydd yr holl geisiadau a ddaw i law erbyn y dyddiad perthnasol a gyhoeddwyd yn cael eu hystyried yn gyfartal. 15 Hydref ar gyfer Meddygaeth a 15 Ionawr i'r rhan fwyaf o raglenni israddedig eraill).

Os caiff cais ei dderbyn ar ôl y dyddiad cau perthnasol ac mae'r cwrs yn llawn, gellir ei wrthod neu ei ystyried ar gyfer y garfan nesaf sy'n cael ei derbyn.

### D2. Dethol

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddarparu system dderbyn deg. Ystyrir pob ymgeisydd am raglen yn unol â'r un meini prawf derbyn. Pan fydd nifer y lleoedd yn gyfyngedig, cynigiwn leoedd i'r ymgeiswyr hynny sy'n bodloni'n meini prawf dethol orau ac y mae'r detholwyr derbyniadau'n barnu bod ganddynt y potensial mwyaf i elwa o'u rhaglen ddethol.

Mae'r dulliau asesu ceisiadau'n amrywio rhwng rhaglenni a gallant gynnwys cyflawniad academaidd blaenorol a disgwyledig, geirdaon, datganiadau personol neu gefnogol, cyfweiliad, profion gallu a chynigion ymchwil. Gall y detholwyr hefyd ystyried unrhyw amgylchiadau unigol eithriadol neu rwystrau i ddysgu e.e. afiechydon estynedig, pan fydd yr wybodaeth hon wedi'i chynnwys mewn cais.

Pan fydd meini prawf dethol rhaglenni'n gofyn am gyfweiliadau, profion neu waith ysgrifenedig ychwanegol, byddwn yn gwneud hyn yn amlwg i ymgeiswyr ar dudalennau'r rhaglenni perthnasol yn y prospectws ac ar-lein.

Rydym yn ymdrechu i wneud penderfyniadau neu wahodd ymgeiswyr i gyfweiliad o fewn 3 wythnos i dderbyn y cais (DS bydd y Tîm Derbyn perthnasol yn cysylltu ag ymgeiswyr Meddygaeth a Nyrso'n uniongyrchol).

### **D3. Y broses gwneud cynnig**

Pan fydd ymgeisydd wedi gwneud cais drwy UCAS, bydd y Brifysgol yn cadarnhau ein penderfyniad drwy sianeli swyddogol UCAS, ond caiff y cynnig ffurfiol, gan gynnwys y Telerau ac Amodau llawn, eu hanfon yn uniongyrchol at yr ymgeisydd.

Pan fydd ymgeisydd wedi gwneud cais uniongyrchol i'r Brifysgol, bydd penderfyniad ffurfiol yn cael ei wneud ac yn cael ei gyfleu'n uniongyrchol i'r ymgeisydd gan y staff Derbyn perthnasol.

Bydd cynnig, amodol neu ddiomod, yn cael ei wneud yn ddiwyll gan ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd a/neu ei ganolwr adeg y cais. Mewn rhai amgylchiadau, gall cynnig fod yn amodol ar ofynion anacademaidd e.e. archwiliad cofnodion troseddol trwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a ystyrir yn foddhaol.

### **D4. Derbyn cynnig o le**

Gan ddibynnu ar y dull ymgeisio, dylai'r ymgeisydd wneud y canlynol i dderbyn ei gynnig:

- Ceisiadau drwy UCAS Apply – dylid derbyn y cynnig drwy UCAS fel naill ai dewis cadarn (cyntaf) neu ddewis yswiriant (wrth gefn)
- Ceisiadau drwy hyfforddiant athrawon i raddedigion UCAS – dylid derbyn y cynnig drwy UCAS
- Ceisiadau uniongyrchol neu'r rhai hynny a wnaed drwy Law CABS – dylid derbyn y cynnigion yn uniongyrchol gyda'r Brifysgol fel yr amlinellir yn y llythyr cynnig

Drwy dderbyn cynnig o le, bydd ymgeiswyr yn ymrwmo i gontract gyda Phrifysgol Abertawe ar sail yr amodau a thelerau a amlinellwyd yn y cynnig ac yn Amodau a Thelerau Prifysgol Abertawe. Mae manylion llawn ar gael yn y: <https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/>

### **D5. Polisi Canslo**

Ar ôl derbyn cynnig lle, gall ymgeiswyr ganslo'r cynnig a dderbyniwyd o fewn 14 diwrnod heb roi rheswm; fel arfer, caiff unrhyw flaendal, ffioedd gweinyddu neu ffioedd eraill a dalwyd ganddynt eu had-dalu'n llawn. Am ragor o fanylion, gweler: <https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/>



## D6. Cadarnhau'r canlyniadau

Mae 'cadarnhad' yn cyfeirio at y cyfnod bob blwyddyn pan fydd y Brifysgol yn derbyn canlyniadau arholiadau'r ymgeiswyr sydd wedi derbyn cynigion Amodol. Mae lleoedd ymgeiswyr sy'n cyflawni gofynion eu cynnig Amodol yn cael eu cadarnhau'n awtomatig.

Adolygir ceisiadau gan ymgeiswyr nad ydynt wedi ennill y graddau angenrheidiol yn llawn a gall eu lleoedd gael eu cadarnhau os bydd lle ar gael, ond ni ellir sicrhau y bydd hyn yn bosib.

Rhaid bodloni holl amodau'r cynigion ar gyfer rhaglenni i israddedig yn llawn erbyn canol dydd ar 31 Awst y flwyddyn dderbyn i warantu lle. Os caiff amodau eu bodloni ar ôl yr adeg hon, mae'n bosib y byddwn ni'n gallu cadarnhau lle ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Mae'r weithdrefn Gadarnhau ar gyfer y rhan fwyaf o ymgeiswyr israddedig yn cynnwys derbyn a phrosesu data electronig gan UCAS a fydd, yn ei dro, yn derbyn ac yn prosesu data canlyniadau electronig gan y byrddau arholi. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ddiwygio'r cynnig os ceir gwall electronig.

Mae'r weithdrefn Gadarnhau ar gyfer ymgeiswyr ôl-raddedig a rhyngwladol yn cynnwys ysgrifennu at sefydliadau blaenorol i gael manylion y radd neu ganlyniadau eraill, gwirio canlyniadau profion laith Saesneg trwy wasanaethau gwirio ar-lein ac ysgrifennu at ganolwyr. Os nad yw'r wybodaeth ar gael yn uniongyrchol, cysylltir ag ymgeiswyr i'w hatgoffa o'r amodau sydd heb eu bodloni ac i ofyn iddynt gyflwyno'r dogfennau perthnasol.

Gellir gofyn i ymgeiswyr gyflwyno'u tystysgrifau gwreiddiol i'w harchwilio wrth gofrestru lle nad oedd modd i'r Brifysgol gael cadarnhad swyddogol o'r dyfarniad gan y corff neu'r sefydliad dyfarnu.\*

*\*Addasiadau COVID-19: er na fydd hi'n bosib i ymgeiswyr gyflwyno dogfennau'n bersonol, mae'n ofynnol iddynt lanlwytho llun o'r dystysgrif wreiddiol i'w porth Ymgeisio pan na fydd y Brifysgol wedi gallu cael cadarnhad swyddogol o'r dyfarniad gan y corff/sefydliad dyfarnu.*

## D7. Matriciweiddio Ôl-raddedig

Matriciweiddio yw derbyn ymgeiswyr yn ffurfiol i raglen astudio sy'n arwain at radd neu ddyfarniad academiaidd arall gan y Brifysgol. Rhaid i ymgeiswyr sydd heb fatriciweiddio o'r blaen ddarparu tystiolaeth o'u gradd neu gymhwyster cyfatebol ar ffurf tystysgrif wreiddiol neu ddatganiad swyddogol gan y sefydliad dyfarnu neu gorff arall. Oni bai bod ymgeisydd yn matriciweiddio, ni fydd yn gymwys i'w arholi a gallai gael ei atal gan y Brifysgol, rhag parhau â'r ymgeisiaeth ar adeg briodol yn y flwyddyn academiaidd.

## **E. Gwybodaeth i ymgeiswyr mewn amgylchiadau penodol.**

### **E1. Derbyng myfyrwyr dan oed**

Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob oed, a bydd ceisiadau'n cael eu hystyried yn ôl eu teilyngdod unigol. Os cynigir lle i ymgeisydd a fydd dan 18 oed adeg cofrestru, gall fod angen rhoi gweithdrefnau deddfwriaethol penodol ar waith er mwyn cyflawni dyletswydd gofal y Brifysgol i fyfyrwyr.

I ymgeiswyr rhwng 16 a 18 oed adeg cofrestru, bydd hyn yn golygu y bydd angen i riant neu warcheidwad yr ymgeisydd lofnodi datganiad adeg y cynnig. Caiff ymgeiswyr sy'n iau nag 16 oed adeg cofrestru eu hystyried yn unigol ac mae'n debygol y bydd angen i'r ymgeisydd ddod yng nghwmni rhiant neu warcheidwad.

Gellir darllen polisi llawn y Brifysgol ar Ddiogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed, sy'n cynnwys y polisi ar dderbyn myfyrwyr dan oed, ar-lein yn:

<https://www.swansea.ac.uk/media/Safeguarding-Vulnerable-Groups-Policy-2018.docx>

### **E2. Ymgeiswyr ag anableddau**

Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr ag anableddau a/neu anghenion cymorth ychwanegol. Rydym yn annog ymgeiswyr i gysylltu â'r Swyddfa Anableddau neu'r Swyddfa Lles cyn gynted â phosib i holi pa fath o gymorth a allai fod ar gael iddynt a pha wybodaeth mae angen iddynt ei hanfon atom ni.

Bydd ymgeiswyr sy'n datgan anabledd yn cael eu hystyried yn unol â'r un egwyddorion ag ymgeiswyr eraill. Yna, pan fydd cynnig wedi'i wneud, bydd Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr yn anfon holiadur at ymgeiswyr yn gofyn am natur eu cyflwr ac unrhyw anghenion cymorth. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn gallu rhoi unrhyw gefnogaeth ychwanegol ar waith a gwneud unrhyw addasiadau rhesymol a allai fod yn ofynnol yn brydlon ar ddechrau'r rhaglen. Os bydd ymgeiswyr yn dewis peidio â dweud wrthym am eu hanabledd, neu'n dewis darparu'r wybodaeth ar fyr rybudd cyn dyddiad dechrau eu rhaglen, neu os nad ydynt yn darparu gwybodaeth lawn amdano cyn eu rhaglen astudio, byddwn yn gwneud ein gorau i'w helpu, ond mae'n bosib na fyddwn yn gallu darparu'r ystod lawn o gymorth a allai fod ar gael fel arall, neu gallai fod oedi o ran darparu'r cymorth hwnnw.

Mae nifer fach o raglenni proffesiynol fel Nyrsio, Meddygaeth a Gwaith Cymdeithasol yn dyfarnu addasrwydd i ymarfer yn y proffesiwn perthnasol. O ganlyniad, mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb i'r cyhoedd, cyflogwyr a'r proffesiynau i sicrhau y gall darpar fyfyrwyr gyflawni'r deilliannau dysgu a bennwyd gan y cyrff proffesiynol a statudol a'u bod yn "addas i ymarfer". Yn yr achosion hyn, byddai cynnig yn cael ei wneud yn "amodol ar gymeradwyaeth y Panel Addasrwydd i Ymarfer". Gellir dod o hyd i fanylion llawn ar y tudalennau gwe ar gyfer y rhaglenni perthnasol.

Dylai myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o'r tu allan i'r DU fod yn ymwybodol nad yw myfyrwyr rhyngwladol yn gymwys am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl y DU. Cyngorir myfyrwyr i gysylltu â'u Llywodraeth gartref am wybodaeth am unrhyw gyllid a allai fod ar gael iddynt fel myfyriwr anabl. Dylai myfyrwyr ar raglenni cyfnewid geisio cyllid gan eu sefydliad 'cartref'.

Mae myfyrwyr ar raglenni astudio byr hefyd yn annhebygol o dderbyn y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl.

Mae'r Swyddfa Anableddau/Gwasanaeth Lles yn cynghori myfyrwyr Rhyngwladol a myfyrwyr ar raglenni astudio byr yn gryf i gysylltu â'r gwasanaeth perthnasol yn y Brifysgol cyn gwneud cais ffurfiol i'r Brifysgol. Bydd hyn yn rhoi amser i fyfyrwyr archwilio'n llawn a deall y gefnogaeth y bydd arnynt ei hangen ac i ba raddau y gall y Brifysgol ei darparu.

### **E3. Ymgeiswyr ag Euogfarnau Troseddol**

Nod Prifysgol Abertawe yw hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bob ymgeisydd sydd â'r cyfuniad cywir o ddoniau, sgiliau a photensial ac, felly, mae Prifysgol Abertawe yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr amrywiol.

Rydym yn gofyn i ymgeiswyr ddatgelu manylion troseddau perthnasol blaenorol fel y gall y Brifysgol asesu a yw hyn yn debygol o effeithio – ac i ba raddau – ar ddiogelwch a lles staff, myfyrwyr, ymwelwyr ac eraill sy'n defnyddio ein gwasanaethau neu ein cyfleusterau a/neu ar addasrwydd rhywun ar gyfer rhaglen. Ni fydd euogfarn droseddol o reidrwydd yn atal ymgeisydd rhag cael lle ar ei raglen ddewisol. Bydd hyn yn dibynnu ar y rhaglen ac amgylchiadau a chefnidir y drosedd neu'r troseddau.

Gofynnir i ymgeiswyr ddweud wrth y Brifysgol am unrhyw euogfarnau troseddol a allai fod ganddynt ar adegau gwahanol o'r broses dderbyn, gan ddibynnu ar natur y rhaglen astudio:

#### **E3.1 Rhaglenni Addysg/Astudiaethau Plentyndod, Meddygaeth a Gwaith Cymdeithasol**

Gofynnir i ymgeiswyr sy'n gwneud cais am raglenni sy'n cynnwys gweithio gyda phlant a/neu oedolion sy'n agored i niwed ddatgan yr holl euogfarnau neu rybuddiadau (boed ar lafar neu'n ysgrifenedig) ar eu ffurflenni cais, gan gynnwys y rhai hynny yr ystyrir eu bod wedi'u "disbyddu" o dan y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr; ar wahân i'r rhai hynny a fyddai'n cael eu "hidlo" yn unol â chanllawiau'r DBS a gyhoeddwyd yn 2013 (am wybodaeth am euogfarnau "a hidlwyd", gweler: <http://hub.unlock.org.uk/wp-content/uploads/What-will-be-filtered-by-the-DBS.pdf>)

Pe bai ymgeisydd yn llwyddiannus mewn cyfweiliad ar ôl datgelu euogfarn, byddai unrhyw gynnyg yn amodol ar asesiad o addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer y rhaglen gan y "Panel Addasrwydd i Ymarfer". Hefyd, byddai'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau gwiriad manwl o gofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

#### **E3.2 Rhaglenni Eraill**

Ar ôl derbyn cynnyg o le, gofynnir i ymgeiswyr am raglenni eraill ddatgelu unrhyw euogfarnau eraill "heb eu disbyddu" yr ystyrir eu bod yn "berthnasol".

Euogfarnau **perthnasol** yw'r rhai hynny sydd â goblygiadau i ddyletswydd gofal prifysgolion tuag at ddiogelwch eu myfyrwyr, eu staff a'u hymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys euogfarnau sy'n ymwneud â thrais, troseddau rhywiol a chyflenwi cyffuriau; yn ogystal â throseddau sy'n ymwneud ag arfau tanio, llosgi bwriadol a therfysgaeth.

Nid oes rhaid i ymgeiswyr ddweud wrthym am euogfarnau '**sydd wedi'u disbyddu**' yn ôl y diffiniad yn Neddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.

Os bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i'r achos, bydd y Pennaeth Derbyn yn cyflwyno'r achos gerbron Panel Euogfarnau Troseddol y Brifysgol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o uwch staff y Brifysgol o Wasanaethau Myfyrwyr, Gwasanaethau Academaidd a Derbyniadau ar gyfer cymorth

ysgrifenyddol.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd, bydd y panel yn asesu'r risg i fyfyrwyr eraill, staff ac eraill y gall yr ymgeisydd fod mewn cysylltiad â nhw ac eiddo'r Brifysgol, gan ystyried:

- Natur y drosedd/troseddau ac a yw'n berthnasol i'r rhaglen astudio
- Pa mor hir yn ôl digwyddodd y drosedd/troseddau
- Yn achos mwy nag un drosedd, ystyrir a oedd pob un yn ddigwyddiad unigol neu'n rhan o gyfres o ddigwyddiadau tebyg
- Argymhellion canolwyr, amgylchiadau esgusodol ac amgylchiadau gwaethybol

Gan ddibynnu ar yr asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r euogfarn, gall y Brifysgol:

- Gadarnhau'r lle ar y rhaglen, ar yr amod bod yr ymgeisydd yn bodloni unrhyw amodau a bennir yn y cynnig;
- Atodi amodau ychwanegol mewn perthynas â derbyn yr ymgeisydd/cofrestru ar y rhaglen; Neu
- Ganslo'r cynnig a derbyniad y cynnig hwnnw.

Dylai unrhyw ymgeisydd sy'n cael rhybuddiad neu euogfarn ar ôl gwneud cais a chyn dyddiad cofrestru gyda'r Brifysgol roi gwybod i'r Swyddfa Dderbyn yn ddi-oed. Os caiff myfyriwr ei euogfarnu ar ôl cofrestru, dylai hysbysu Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Academaidd ar unwaith.

Am ragor o fanylion, gweler y polisi llawn ar Recriwtio Myfyrwyr ag euogfarnau troseddol yn:

<https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/>

#### **E4. Ymgeiswyr sy'n ceisio am fynediad gohiriedig / gohirio cynnig lle**

- Gallwch wneud cais i ohirio eich mynediad at y flwyddyn academaidd / pwynt mynediad nesaf drwy ysgrifennu at y Tîm Derbyn Myfyrwyr priodol. Os yw eich cais yn cael ei gymeradwyo, fel arfer, dim ond un cais gohiriedig fydd yn cael ei ganiatáu, ar ôl hynny bydd disgwyl i chi gyflwyno cais newydd.
- Noder nad yw rhai rhaglenni'n caniatáu gohirio mynediad, er enghraifft, yn sgil y cyfyngiad ar y nifer o leoedd sydd ar gael neu lle bo newid sylweddol i'r gofynion mynediad ers i chi gyflwyno eich cais gwreiddiol.
- Nid oes modd gohirio cynnig o ysgoloriaeth gan y Brifysgol. Bydd angen i chi ymgeisio o'r newydd, ac ni ellir gwarantu y bydd y fath gais yn llwyddo.

Mae'r polisi llawn wedi'i restru [yma](#).

#### **E5. Cydnabyddiaeth am Ddysgu Blaenorol (RPL)**

Dylai ymgeiswyr israddedig ac ôl-raddedig a addysgir sy'n dymuno i'w dysgu blaenorol gael ei ystyried am eithriad rhannol o'u rhaglen gradd neu ôl-raddedig ddethol gysylltu â'r Detholwr Derbyn perthnasol yn y lle cyntaf.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod 3 math o ddysgu blaenorol:

- a) Trosglwyddo Credydau** – lle dyfarnwyd y credydau neu'r cymhwyster gan sefydliad addysg uwch yn y DU fel rhan o gymhwyster ffurfiol neu gan sefydliad y tu allan i'r DU fel rhan o gymhwyster

cyfwerth. Ni ellir trosglwyddo credydau oni bai bod y dysgu blaenorol yn ymdrin â'r un maes pwnc, a rhaid ei fod wedi'i gwblhau yn ystod y 5 mlynedd flaenorol;

- b) Cydnabod dysgu tystysgrifedig blaenorol (RPcL)** – dysgu blaenorol (megis dyfarniadau datblygiad proffesiynol neu ddyfarniadau sy'n seiliedig ar gyflogaeth) sydd ar lefel addysg uwch ond nad yw wedi arwain at ddyfarnu credydau neu gymhwyster addysg uwch;
- c) Cydnabod Dysgu trwy Brofiad Blaenorol (RPeL)** – lle mae dysgu a gyflawnir drwy brofiad yn cael ei asesu a'i gydnabod.

Yn achos ceisiadau am RPcL ac RPeL, codir ffi weinyddol a fydd gyfwerth â 10% ffi unrhyw fodiwl sy'n cael ei ystyried am RPL.

Yn achos rhaglenni israddedig, uchafswm nifer y credydai y gellir eu derbyn tuag at radd gychwynnol fydd:

\*dim mwy na 240, h.y. rhaid i ymgeiswyr ddilyn isafswm o 120 o gredydau yn Abertawe fel arfer. Lle derbyniwyd uchafswm y credydau trosglwyddadwy, rhaid i weddill y credydau a ddilynir fod ar Lefel 6 neu yn uwch, neu

\* uchafswm o 120 o gredydau drwy ddysgu "drwy brofiad" neu "dystysgrifedig" (h.y. cymwysterau proffesiynol)

Yn achos rhaglenni Ôl-raddedig, nid yw fel arfer yn bosib ennill mwy na thraean o gyfanswm credydau'r rhaglen drwy RPL (e.e. 60 credyd ar raglen MSc/MA). Fodd bynnag, mae rhai eithriadau'n berthnasol i raglenni unigol megis Cwrs Ymarfer y Gyfraith.

Am ragor o fanylion, gweler y polisi RPL llawn yn: <https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/>

## **E6. Ymgeiswyr sy'n dymuno ail-wneud cais**

Y Detholwyr Derbyn fydd yn penderfynu a ddylid ystyried ail gais ac ni ddylid cymryd yn ganiataol y byddant yn ystyried ail gais bob tro. Mae'r Brifysgol yn cadw ei hawl i edrych ar wybodaeth o geisiadau blaenorol (gan gynnwys gohebiaeth, datganiadau personol, geiradaon a pherfformiad mewn cyfweiliad) neu wybodaeth o unrhyw gyfnod cofrestru blaenorol yn y Brifysgol wrth asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer rhaglen.

Dylai ymgeiswyr sydd wedi methu rhaglen astudiaeth flaenorol ym Mhrifysgol Abertawe ac sy'n dymuno cyflwyno cais eto wneud cais yn y ffordd arferol (trwy UCAS neu ar-lein fel y bo'n briodol). Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan y Detholwyr Derbyn, gan ystyried cymwysterau wedi'u cwblhau a gwybodaeth o'r cyfnod astudio blaenorol. Ni fyddai ymgeiswyr yn cael eu hystyried am yr un maes astudio neu faes astudio perthynol ond mewn amgylchiadau eithriadol, a byddai angen cymeradwyaeth y Deon Derbyn Myfyrwyr neu enwebai.

## **E7. Ymgeiswyr mae angen fisa arnynt i astudio yn y DU**

I allu astudio yn y DU, bydd angen fisa ar y rhan fwyaf o ymgeiswyr rhyngwladol, ynghyd â chadarnhad o'u cynnig o le. Cyn i ni ddarparu'r Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS) bydd angen i'r ymgeiswyr gydymffurfio ag agweddau perthnasol ar arweiniad i noddwyr Llwybr Myfyriwr Swyddfa Gartref y DU ac arweiniad y Brifysgol ynghylch derbyn ymgeiswyr Llwybr Myfyriwr.

Os oes angen fisa Llwybr Myfyriwr ar ymgeiswyr i astudio yn y DU, bydd rhaid iddynt dalu blaendal o £4,000 cyn i ni ddarparu Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS). Y tu allan i'r cyfnod canslo o 14 diwrnod, ni fyddwn yn ad-dalu'r blaendal fel arfer, oni bai y gwrthodir fisa i astudio amser llawn yn y DU neu os bydd ymgeiswyr yn methu bodloni gofynion mynediad y Brifysgol. Gellir gohirio'r blaendal tan flwyddyn astudio yn y dyfodol. Mae hyn yn unol â pholisi'r Brifysgol ar Flaendaliadau Ffioedd Dysgu, sydd ar gael yn: <https://www.swansea.ac.uk/cy/israddedig/ffioedd-a-chyllid/ffioedd-dysgu/polisiad-daliadau/>

Mae'r System Mewnfudo ar Sail Pwyntiau yn gosod dyletswyddau a rhwymedigaethau ar y Brifysgol. Os bydd gofynion y fisa yn newid, neu os daw'n amlwg nad yw ymgeisydd yn gymwys am fisa (er enghraifft, os nad yw'n gallu bodloni gofynion Swyddfa Fisâu a Mewnfudo'r DU o ran dilyniant academaidd neu ofynion credadwyaeth) ar ôl i gynnig gael ei wneud, mae'n bosib y bydd rhaid i'r Brifysgol dynnu'r cynnig o le yn ôl.

#### **F. Adborth, apeliadau a chwynion**

Gall ymgeiswyr sy'n aflwyddiannus wrth sicrhau cynnig am le yn y Brifysgol ofyn am adborth ar y rhesymau dros wrthod trwy ysgrifennu at y Detholwr Derbyn o fewn 28 niwrnod i gael eu hysbysu am y penderfyniad. Bydd adborth yn cael ei ddarparu gan gyfeirio at y meini prawf dethol ar gyfer y rhaglen. Gall ymgeiswyr gyflwyno ail gais yn y flwyddyn ganlynol, ar ôl ystyried yr adborth.

Ymdrechwn i ystyried pob cais mewn modd teg ac effeithiol, yn unol â'n gweithdrefnau. Fodd bynnag, os bydd ymgeisydd yn anfodlon gyda chanlyniad neu ymdriniaeth cais, dylai godi'r pryderon gyda'r Swyddfa Dderbyn. Os bydd yr ymgeisydd yn parhau i fod yn anfodlon ar ôl hyn, gall ddefnyddio'r Polisi Cwyno ac Apelio ar gyfer Ymgeiswyr y gellir dod o hyd iddo ar-lein yn: <https://www.swansea.ac.uk/admissions/complaintsandappeals/>

#### **G. Gwybodaeth ffug neu gamarweiniol**

Ni ddylai ymgeiswyr hepgor unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani neu wybodaeth berthnasol, gwneud unrhyw gamliwiad (er enghraifft, trwy lôn-ladrad) na rhoi gwybodaeth ffug ar unrhyw adeg yn ystod y broses ymgeisio, gan gynnwys ar ôl i gynnig gael ei wneud. Os digwydd hyn, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ganslo cais, tynnu cynnig o le yn ôl a/neu ddirymu'r cofrestrriad os daw gwybodaeth i'r amlwg ar ôl dechrau'r tymor. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion ar-lein yn: <https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/gwybodaeth-anghywir/>

#### **H. Defnydd y Brifysgol o ddata ymgeiswyr**

Bydd yr wybodaeth mewn cais yn cael ei defnyddio'n bennaf at ddibenion prosesu cais a chreu cofnod y myfyriwr. Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio i lunio adroddiadau statudol i gyrff megis yr Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch (HESA) hefyd.

Caiff yr holl ddata ei ddal a'i brosesu'n unol â gofynion Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r UE (a elwir yn "GDPR") a Deddf Diogelu Data 2018. Fel rheol, cedwir ceisiadau'n gyfrinachol rhwng yr ymgeisydd, y staff priodol yn y Brifysgol ac, yn achos ymgeiswyr rhyngwladol, Gwasanaeth Fisâu a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig y Swyddfa Gartref. Mewn rhai achosion, gellir rhannu data o geisiadau â chyrrff allanol hefyd lle datblygwyd rhaglenni ar y cyd â sefydliadau trydydd parti a lle mae gan staff y tu allan i'r Brifysgol rôl yn y broses dethol myfyrwyr i'w derbyn. Yn ogystal, er mwyn canfod

ac atal twyll, mae gan y Brifysgol yr hawl i rannu gwybodaeth â sefydliadau allanol, megis yr Heddlu, awdurdodau lleol, cyrff arholi neu ddyfarnu, a'r Adran Gwaith a Phensiynau a'i hasiantaethau.

Ceir gwybodaeth lawn am sut mae'r Brifysgol yn casglu ac yn defnyddio data personol darpar fyfyrwyr, a'r cyfnodau cadw, ar-lein yn: <https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/datganiad-preifatrwydd-data-ymgeiswyr/>

Gellir dod o hyd i bolisi'r Brifysgol ar ddefnyddio a storio archwiliadau cofnodion troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar-lein yn: <https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/datganiad-preifatrwydd-data-ymgeiswyr/>

## I. Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yn y broses dderbyn

### 11. Darparu gwybodaeth

Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw darparu gwybodaeth lawn a chywir i gefnogi eu cais. Dylai ymgeiswyr hefyd roi gwybod i'r Swyddfa Dderbyn yn ddi-oed am unrhyw newidiadau neu gywiriadau i'r wybodaeth a gyflenwyd yn y cais gwreiddiol.

### 12. Amodau a thelerau cynnig

Drwy dderbyn cynnig o le, bydd ymgeiswyr yn ymrwmo i gontract gyda Phrifysgol Abertawe ar sail yr amodau a thelerau a amlinellwyd yn y cynnig ac yn Amodau a Thelerau Prifysgol Abertawe: <https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/datganiad-preifatrwydd-data-ymgeiswyr/>

### 13. Ffioedd a blaendaliadau

Mae'r myfyrwyr yn gyfrifol am dalu eu ffioedd a'u dyledion eu hunain. Gall y Brifysgol gytuno i gaisam anfonebu trydydd parti am ffi neu ddyled (er enghraifft y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, Awdurdod Lleol, Cyngor Cyllido neu Noddwr arall). Nid yw hyn yn effeithio ar gyfrifoldeb y myfyriwr am dalu'r ffi neu'r ddyled yn y pen draw.

Gall rhai rhaglenni astudio ôl-raddedig ofyn i fyfyrwyr dalu ffioedd "mainc" ychwanegol (h.y. yn gysylltiedig â defnyddio'r labordy). Lle dyma yw'r achos, bydd y ffioedd ychwanegol yn cael eu hamlinellu yn y cynnig i dderbyn a byddant yn cael eu talu ar yr un sail â ffioedd dysgu safonol.

Mae'r Brifysgol yn cydymffurfio ag arweiniad y Swyddfa Gartref ar ddynodi myfyrwyr fel rhai "Cartref" neu "Dramor" at ddibenion ffioedd dysgu.

Ar gyfer rhai rhaglenni proffesiynol (e.e. Diploma Ymarfer y Gyfraith a'r Diploma yn y Gyfraith i Raddedigion), gall y Brifysgol, trwy ymgynghori â'r Ysgol/Coleg dan sylw, godi blaendal na chaiff ei ad-dalu, a fydd yn cael ei wrthbwysu yn erbyn y ffioedd dysgu, pan fydd ymgeisydd yn derbyn cynnig am le.

Er mwyn cydymffurfio ag arweiniad Fisâu a Mewnfudo'r DU ar dderbyn Myfyrwyr Rhyngwladol, mae'r Brifysgol yn gofyn i Fyfyrwyr Rhyngwladol dalu blaendal na chaiff ei ad-dalu tuag at eu ffioedd dysgu cyn y gellir rhoi iddynt y dogfennau angenrheidiol i'w galluogi i wneud cais am fisa myfyriwr i ganiatáu iddynt astudio yn y DU. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar-lein yn: <https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/>

### 14. Ymddygiad Ymgeisydd

Mae Prifysgol Abertawe yn ymrwymedig i'n gwerthoedd proffesiynol yn ei holl ryngweithio â'i



ymgeiswyr.

Yn ogystal, bydd y Brifysgol yn disgwyl i ymgeiswyr ryngweithio â'r Brifysgol a'i chymuned mewn ffordd barchus. Ni fydd y Brifysgol yn goddef ymddygiad amhriodol, sarhaus na difriol yn ystod y broses dderbyn na chyfathrebu yr ystyrir ei fod yn faleisus ac sydd â'r potensial i ddwyn anfri ar enw da'r Brifysgol. Caiff unrhyw ymddygiad o'r fath ei ystyried yn ddifrifol a gallai gael effaith niweidiol pan ystyrir yr ymgeisydd at ddibenion derbyn, apêl neu gŵyn.

Fel arfer, bydd y Brifysgol yn rhybuddio ymgeisydd os bernir bod ei ymddygiad, ei ffordd o gyfathrebu neu ei ffordd o ryngweithio yn amhriodol cyn cymryd camau pellach, ond mewn achosion difrifol, gall weithredu'n ddirybudd. Gallai camau o'r fath gynnwys gwrthod cais a wnaed, neu dynnu cynnig a wnaed yn ôl. Gellir hefyd hysbysu'r awdurdodau perthnasol am ymddygiad troseddol .

## **J. Ymwadiad**

Mae'r Brifysgol yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir mewn prospectysau, llyfrynau ac ar-lein yn ddefnyddiol ac yn gywir ar ddyddiad ei chyhoeddi. Efallai y bydd rhai newidiadau yn angenrheidiol, fodd bynnag e.e. i raglenni, lleoliadau astudio, cyfleoedd am leoliad gwaith, cyfleusterau neu ffioedd, o ganlyniad i resymau staffio, ariannol, rheoleiddiol ac academaidd dilys. Byddwn bob amser yn ymdrechu i gadw newidiadau i leiafswm ac i hysbysu darpar fyfyrwyr yn briodol. Caiff newidiadau i'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn prospectysau a thudalennau gwe rhaglenni ar-lein ei diweddarau'n bob chwarter yn <https://www.swansea.ac.uk/cy/israddedig/newidiadau-rhaglen-israddedig> a <https://www.swansea.ac.uk/cy/ol-raddedig/newidiadau-rhaglen-ol-raddedig>

### **J1 Tynnu'n Ôl neu Newidiadau i Raglenni**

Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosib y bydd rhaid i'r Brifysgol dynnu rhaglenni yn ôl neu eu gohirio. Ni fydd hyn yn digwydd llai na 5 mis cyn y dyddiad cofrestru. Os caiff eich rhaglen ei thynnu'n ôl neu os newidir ei helfennau sylfaenol ar ôl i chi dderbyn eich cynnig, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i chi'n gynnar bod y rhaglen wedi cael ei thynnu'n ôl neu ei newid, ac i leihau'r effaith drwy gynnig rhaglen arall addas (os oes un ar gael ac os ydych yn bodloni'r gofynion mynediad), neu bydd yn eich helpu i ddod o hyd i raglen neu brifysgol arall. Yn ogystal, bydd gennych hawl i dynnu'n ôl o'ch rhaglen a gwneud cais am ad-daliad, neu ad-daliad rhannol, unrhyw ffioedd dysgu rydych wedi'u talu.

Crëwyd ym mis Mai 2009

Diweddarwyd ym mis Ionawr 2021